# Defnydd Grant Amddifadedd Disgyblion Ysgol Pentreuchaf

# 2016-2017

| | |
|---|---|
| **GAD 2016-2017** | **£8,050** |
| **GAD disgyblion dan 5** | **£1,200** |
| **Cyflogi CADY 7/12(1 Medi 2016 – 31 Mawrth 2017)** | **£8,750** |

| **Agwedd** | **Dull Gweithredu** | **Effaith** |
|---|---|---|
| Cynllun Ymyrraeth Llythrennedd a rhifedd yn y CS | Athrawes Anghenion Dysgu Ychwanegol yn targedu grwpiau bychan o ddisgyblion CS sy'n derbyn PYD, ac sydd wedi eu hadnabod gan yr Ysgol fel disgyblion sydd angen sylw wedi ei dargedu'n benodol i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd cynnar.<br><br>Asesiad cychwynol o adnabyddiaeth o lythrennau, rhifau a sgiliau darllen cynnar.<br><br>Pwyslais ar dechnegau aml synhwyraidd a dysgu trwy chwarae. Defnydd o adnoddau megis TRUGS (Teach Reading Using Games) - Bocs Coch ac adnoddau ymarferol e,e, llythrennau plastig, toes, Numicon a gemau bwrdd a chardiau. Rhannu adnoddau a strategaethau efo'r athrawes | Cyfle i'r disgyblion weithio mewn grŵp bychan o blant gydag anawsterau tebyg.<br><br>Gwella eu hyder wrth drin llythrennau a geiriau – dechrau adeiladu geiriau ac ysgrifennu brawddegau syml.<br><br>Disgyblion yn magu strategaethau i gynorthwyo eu hunain ac yn cychwyn cyffredinoli'r sgiliau hyn ar lawr y dosbarth.<br><br>Trwy asesiadau ffurfiol a ffurfiannol, gweld cynnydd yng ngallu'r disgyblion i adnabod llythrennau a rhifau, adnabod gwerth rhifau 1-10 a darllen geiriau syml yn fwy rhugl. |

| | | |
|---|---|---|
| | ddosbarth a chymorthyddion. | |
| Targedu sgiliau darllen a sillafu grwp disgyblion PYD CA2 | Athrawes Anghenion Dysgu Ychwanegol yn targedu unigolion a pharau o ddisgyblion sydd yn derbyn prydau ysgol am ddim. Sesiynau wythnosol oddeutu 45 munud yr un.<br><br>Asesiad cychwynol o sgiliau cywirdeb darllen, dealltwriaeth darllen a sillafu Cymraeg gan ddefnyddio profion safonedig Glannau Menai. Ail asesu ar ddiwedd y cyfnod targedu.<br><br>Pwyslais ar dechnegau aml synhwyraidd a dysgu trwy chwarae. Defnyddio adnoddau TRUGS (Teach Reading Using Games) - Bocs Coch, Stile ac adnoddau Darllen a Deall Gyda Sam (dysgugydasam.co.uk). Adnoddau ychwanegol wedi eu teilwrio yn arbennig ar gyfer atgyfnerthu'r dysgu e.e. chwileiriau, gemau 4 mewn rhes ayb.<br>Rhannu adnoddau a strategaethau efo'r athrawes ddosbarth a chymorthyddion i ymarfer a chyffredinoli'r hyd a gyflwynwyd o fewn y grwp. | Cyfle i'r disgyblion dderbyn sylw unigol i dargedu sgiliau llythrennedd yn benodol.<br><br>Disgybion yn magu hyder wrth ddarllen a datblygu dealltwriaeth o'r hyn a ddarllenwyd. Gallu cwblhau ymarferion ymateb i gwestiynau ar lafar ac ysgrifenedig am yr hyn a ddarllenwyd.<br><br>Trwy asesiadau ffurfiol a ffurfiannol, gwelwyd cynnydd yng ngallu'r disgyblion i ddarllen testunau syml yn fwy rhugl, gan ddangos dealltwriaeth o'r hyn a ddarllenwyd.<br><br>Yn ogystal, bu cynnydd yn sgiliau sillafu'r disyblion. |
| Cynllun Talkabout for Children – Developing Self Awareness and Self Esteem (Siop Siarad) | Athrawes Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cynnal grŵp am oddeutu 45-60 munud yr wythnos i ddilyn rhaglen Talkabout gan ganolbwyntio yn benodol ar ddatblygu hunan ymwybyddiaeth a hunan ddelwedd y disgyblion.<br>Y grwp yn cynnwys plant sy'n derbyn PYD ac sydd | Holiadur Talkabout yn dangos fod pob un o'r plant, yn ôl eu gallu, wedi datblygu ac ategu at y sgiliau canlynol: disgrifio sut maent yn edrych; gallu disgrifio ffrind neu berson arall; gallu dweud beth maent yn ei hoffi neu ddim yn hoffi, gallu enwi ychydig o nodweddion am eu hunain; gwella hunan |

| | | |
|---|---|---|
| | wedi cael eu hadnabod gan yr ysgol fel rhai bregus ac/neu angen datblygu eu sgiliau cymdeithasol. Cwblhau holiadur o'r cynllun Talkabout er asesu lefel hunan ymwybyddiaeth a hunan werth y disgyblion ar gychwyn y cynllun. Ail-ymweld â'r holiadur ar ddiwedd y cyfnod ymyrraeth er asesu cynnydd yn y meysydd hyn. | ddelwedd.<br>Cyffredinolwyd a throsglwyddwyd y sgiliau i lawr y dosbarth. Mewn cyfweliadau, y plant yn datgan eu mwynhad o gymryd rhan yn y sesiynau Siop Siarad, a'u hawydd i'r grwp barhau. |
| Paratoi disbyglion ADY Blwyddyn 6 ar gyfer trosglwyddo yn llwyddiannus i'r Ysgol Uwchradd | Cydweithio â'r Athrawes Arbenigol Cyfathrebu a Rhyngweithio a chymorthyddion 1:1 i gyflwyno Pecyn Trosglwyddo i'r disgyblion. Cynnal cyfarfodydd ac adolygiadau efo Cydlynwyr ADY yr ysgolion uwchradd perthnasol a'r rhieni. Rhannu gwybodaeth efo'r darpar ysgolion a threfnu ymweliadau blasu. Llunio Proffil a Chynllun Datblygu Unigol er rhannu gwybodaeth efo'r ysgolion uwchradd. | Paratoi'r disgyblion yn raddol yn ystod Blwyddyn 6 er mwyn lleihau eu pryder hwy a'u teuluoedd am y cyfnod o drosglwyddo i'r ysgol uwchradd ym Medi 2017. Cynnwys y disgyblion a'u rhieni yn y broses gynllunio. Yr ysgolion uwchradd yn ymwybodol yn fuan o anghenion y disgyblion er mwyn cynllunio ar eu cyfer mewn da bryd.<br>Y disgyblion yn hyderus i symud i'r ysgolion newydd. |
| Cydlynu materion ADY o fewn yr ysgol. | Athrawes Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gweithredu fel Cydlynydd ADY yr ysgol. Cadw cofrestr a map darpariaeth ADY yr ysgol.<br>Cyfeirio plant at wasanaethau arbenigol e.e. Therapi Iaith a Lleferydd, Therapi Galwedigaethol, Gwasanaeth Athrawon Arbenigol, Seicolegydd addysg ayb. Cydweithio a gweithredu ar gyngor y gweithwyr proffesiynol hyn.<br>Trefnu cyfarfodydd ac adolygiadau gyda rhieni ac asiantaethau allanol.<br>Sicrhau bod cyngor arbenigwyr yn cael ei ddilyn. | Cydlynu gwaith yr ysgol gyfan o adnabod anghenion disgyblion yn fuan, gan drefnu a sicrhau ymyraethau perthnasol ac amserol.<br><br>Sicrhau cydymffurfiad â'r ddeddf mewn perthynas â phlant ar ddatganiad o AAA.<br>Ymwybyddiaeth o Adolygiad Strategol yr Awdurdod, a'r newidiadau yn y dulliau gweithredu er sicrhau cefnogaeth i'r disgyblion. Mabwysiadu dulliau newydd a'u hymgorffori yng nghweithdrefnau'r ysgol e.e. dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn; |

| | | |
|---|---|---|
| | Asesu a monitro cynnydd disgyblion. Cyfrannu at osod targedau i'r CAU.<br>Cysylltu gyda Chanolfannau ac Ysgolion Arbennig sy'n ymwneud â disgyblion yr ysgol.<br>Sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus ym maes ADY trwy fynychu gweithdai a chyrsiau hyfforddiant e.e. Cynlluniau Datblygu Personol, proffiliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, amddiffyn plant, anawsterau ymlyniad.<br>Darparu cyngor a chefnogaeth i'r athrawon a chymorthyddion ar ddulliau a strategaethau i gefnogi disgyblion ag ADY yn y dosbarth.<br>Datblygu'r defnydd o ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o fewn gweithdrefnau'r ysgol. | Cynlluniau Datblygu Unigol. Trwy ymgynghori â phawb sy'n ymwneud â'r plentyn, llunio Cynllun Datblygu Unigol sy'n cynnwys proffil un tudalen a chrynodeb o sut orau i gefnogi'r disgybl i ymgyrraedd a'r targedau.<br><br>Sicrhau cyswllt â rheini.<br><br>Anghenion hyfforddiant yn cael eu hadnabod a'u diwallu.<br><br>Angen am offer ac adnoddau perthnasol yn cael eu hadnabod a'u diwallu. |

Einir W Owen, Cydlynydd ADY

Gorffennaf 2017